**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion y cyfarfod o Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20fed Rhagfyr 2004 yn Siambr y Cyngor, Pencadlys Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 y bore

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); J Kennedy (Dirprwy Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Swyddog Prosiectau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| --- | --- |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| I R Miller | Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr gan y Cynghorydd Cliff Shone yn dilyn y cyfarfod diwethaf, yn gofyn am drefnu ymweliad ar gyfer aelodau â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn yn Chorley neu, fel arall, â Choleg y Gwasanaeth Tân yn Moreton on the Marsh. Roedd o'r farn y byddai ymweliad ag un o'r sefydliadau yma o fudd i'r holl aelodau, yn enwedig yr aelodau newydd. Cafodd yr Awdurdod eu hatgoffa gan y Prif Swyddog Tân fod yr aelodau, pan gynhaliwyd taith debyg y flwyddyn cynt, o'r farn gref y byddai'n fwy buddiol cael ymweliad â Chorley yn hytrach na'r Coleg. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu barn. Roedd y Cynghorydd David Jones o'r farn mai i'r aelodau newydd yn unig y dylid trefnu'r ymweliad â Chorley oherwydd y cyfyngiadau ariannol a fyddai'n wynebu'r Awdurdod yn y blynyddoedd i ddod. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - trefnu ymweliad i aelodau newydd yr Awdurdod Tân â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn yn Chorley yn ystod haf 2005***

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Croesawyd y Cynghorydd Ron Peacock i'w gyfarfod cyntaf. Ef bellach oedd yn lle'r Cynghorydd Darren Millar fel un o gynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar yr Awdurdod.

ii. Llongyfarchwyd Dave Greene, Rheolwr Gwylfa yng Ngorsaf Dân Bangor am ennill Gwobr Hyfforddwr y Flwyddyn 2004 gan Ymddiriedolaeth Tywysog - Cymru.

iii. Trefnwyd cyfarfodydd o'r pwyllgorau ar y dyddiadau canlynol: byddai'r Panel Gweithredol yn cyfarfod ar 31ain Ionawr 2005 – rhoddwyd gwahoddiad i holl aelodau'r Awdurdod Tân ddod i arddangosiad gan yr Uned Ymateb i Ddigwyddiadau yn union ar ôl y cyfarfod o'r Panel. Byddai'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn cyfarfod nesaf ar 10fed Mawrth 2005. Byddai'r ddau gyfarfod yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Rhyl am 10.30 y bore. Byddai'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ar 21ain Mawrth 2005 am 10:30 y bore, yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug

iv. Atgoffwyd yr aelodau am yr angen i ddychwelyd y ffurflenni i roi eu manylion banc/cymdeithas adeiladu er mwyn hwyluso talu eu lwfansau a'u treuliau cyn gynted ag y bo modd

**4) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2004

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18fed Hydref 2004

**5) Materion yn Codi**

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion:

**Cofnodion yr Awdurdod Tân 20fed Medi 2004:**
**Tud. 2, Cyhoeddiadau'r Cadeirydd (v):** Hysbyswyd yr Awdurdod wybod mai i Ynysoedd y Turks a Caicos yr aeth yr injan dân a roddwyd i Gymdeithas Ryngwladol y Gwasanaeth Tân ac Achub ac nid i Bosnia fel a fwriadwyd yn wreiddiol.

**Tud. 3, Adroddiad y Cadeirydd:** Yn y fersiwn Saesneg "*report*" ac nid "*reported*" ddylai'r pumed gair yn y frawddeg gyntaf fod.

**Tud. 4, Adroddiad y Cadeirydd, paragraff cyntaf:** Cafodd cyfarfod Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad, oedd i fod i gael ei gynnal ar 30ain Medi 2004, ei ganslo ac hyd yn hyn nid oedd cyfarfod arall wedi ei drefnu.

**Tud. 5, Adolygiad o Bensiynau:** Holodd y Cynghorydd David Jones am nifer y staff oedd i ymddeol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd ganddo'r niferoedd wrth law ond addawodd ddarparu'r wybodaeth i'r aelodau trwy lythyr.

**6) Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn darparu crynodeb i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd, ers y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 20fed Medi 2004. Yna, aeth yn ei flaen i fanylu ar y digwyddiadau a'r gweithgareddau oedd yn yr adroddiad gan ateb cwestiynau'r aelodau ar amrywiol agweddau o'r wybodaeth.

Cafodd yr Awdurdod wybod gan y Cadeirydd iddo gael ei gadarnhau fel cynrychiolydd awdurdodau tân ac achub Cymru ar Bwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac iddo hefyd yn ddiweddar gael ei ethol yn gynrychiolydd CLlLC ar y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Cyflogwyr Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod ei fod yn bwriadu cyflwyno adroddiad llawn yn y cyfarfod nesaf ar Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yng Ngogledd Cymru. I ateb ymholiad gan y Cynghorydd W J Chorlton a oedd 'dillad tân' ar gael ar gyfer y gangen yng Nghaergybi, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon ei fod yn ymwybodol o'r broblem a bod Adran Storfa'r Gwasanaeth wrthi'n ymdrin â'r mater. Dywedodd y Cynghorydd E C George y byddai cynghorau tref a chymuned hefyd efallai mewn sefyllfa i gynorthwyo gyda chyllido y math yma o fentrau ar gyfer pobl ifanc tra dywedodd y Cadeirydd y gallai arian fod ar gael o'r gronfa "Cymunedau yn Gyntaf". Dywedodd y Cynghorydd D Jones y byddai o fudd hefyd efallai i greu cysylltiadau gyda chynghorau ysgolion.

Gan gyfeirio at ei ymweliad diweddar â'r gynhadledd "*Protecting Our Historic Town Centres*" yng Nghaer, dywedodd y Cadeirydd y gallai fod yn fuddiol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gynnal cynhadledd debyg yn y dyfodol, yn enwedig o gofio bod gan yr ardal gynifer o adeiladau o werth hanesyddol a phensaernïol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd bawb a oedd wedi cyfrannu at drefnu'r seremoni cyflwyno medalau yng Ngwesty'r Oriel House yn Llanelwy ar 27ain Hydref 2004. Dywedodd y Prif Swyddog Tân y penderfynwyd yn bwrpasol symud y seremoni o'r Pencadlys y tro hwn er mwyn ei chynnal mewn lle llai ffurfiol a cheisio ychwanegu naws fwy teuluol i'r digwyddiad . Oherwydd y goblygiadau cyllidebol roedd yn credu bod angen esbonio'r rhesymau dros y penderfyniad hwn. Cytunodd y Prif Swyddog Tân â chais y Cadeirydd y dylid gwahodd holl aelodau'r Awdurdod Tân i'r seremonïau yn y dyfodol.

Yn y cyfarfod o Fforwm Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) ar 19eg Tachwedd 2004 cafwyd trafodaeth ar amgylchiadau erlyniad Awdurdod Tân ac Achub Manceinion Fwyaf gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn marwolaeth un o'i ddiffoddwyr tân. Roedd y Cadeirydd o'r farn y dylai'r Awdurdod gael gwybod am sefyllfa'r Awdurdod o ran darparu indemniadau ar gyfer aelodau a swyddogion. Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i wneud ymholiadau pellach gyda'r Clerc a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod ar ei sefyllfa ynghylch darparu indemniadau ar gyfer aelodau a swyddogion***

Holodd y Cynghorydd P C Evans a oedd y rhaglen ymweld ag awdurdodau tân ac achub cyffiniol a chyfagos a oedd wedi cychwyn yn ystod ei gadeiryddiaeth ef, yn dal i ddigwydd. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd ymweliadau o'r fath yn digwydd ar hyn o bryd ond y byddai'n dechrau arnynt eto yn y dyfodol agos. Roedd yn cytuno â'r Cynghorydd Evans fod yr ymweliadau yma'n ffordd

werthfawr ag effeithiol o greu perthynas weithio agos gydag awdurdodau cyfagos.

Cytunodd y Cadeirydd â chais gan y Cynghorydd D Barratt fod pob aelod o'r Awdurdod Tân yn cael eu gwahodd i'w gorsaf dân leol pan fyddai AC neu AS yn ymweld.

Holodd y Cynghorydd E C George am hynt lledaenu a datblygu perthynas gyda'r CLlLC a'r awdurdodau tân eraill yng Nghymru. Dywedodd y Cadeirydd fod trafodaethau eisoes wedi eu cynnal rhyngddo ef a Chyfarwyddwr ac Arweinydd CLlLC a'u bod bellach yn hyderus y byddai cyfarfod rhwng eu Swyddogion hwy a Chadeiryddion, Is-Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos. Mynegodd y Cynghorydd WJ Chorlton y farn y dylai Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru ar ei newydd wedd gynnwys, nid yn unig Gadeiryddion pob awdurdod ond cynrychiolaeth o blith yr aelodau hefyd. Roedd y Cynghorydd Chorlton yn bryderus fod cyfarfodydd a phenderfyniadau pwysig a oedd yn effeithio ar awdurdodau tân yn cael eu cymryd heb ymgynghori'n iawn â'r aelodau a'r awdurdodau oherwydd nad oedd fforwm effeithiol yn bod ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Roedd yn poeni y gallai hyn arwain at yr awdurdodau'n colli allan ar benderfyniadau a chyfleoedd hanfodol. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod dau o'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi cytuno â'i gilydd trwy gydol yr amser ond roedd yn bendant ei farn ei bod yn bwysig ar yr adeg tyngedfennol hwn eu bod yn ymddangos yn gwbl unedig gerbron y Cynulliad a CLlLC. Roedd angen i enwebiadau'n ymwneud â'r Gwasanaeth Tân gan CLlLC i gyrff allanol gael eu gwneud ar sail cydweithrediadol. Roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd mai'r canlyniad oedd fod CLlLC wedi galw cyfarfod i lyfnhau'r gwahaniaethau, a hynny oherwydd cryn drafod a llythyr gan Glerc Awdurdod Tân Gogledd Cymru am y mater. Roedd yn wir yn gobeithio y byddai'n gallu adrodd ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod nesaf ar 31ain Ionawr 2005.

Cafodd yr aelodau wybod hefyd gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân fod y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad, yn dweud yn glir mai'r Gweinidog fyddai'n gyfrifol am benodi aelodau Pwyllgor Strategol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (WFRSSC). Yna:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad***

## 7) Gohebiaeth am Ddatganiadau Ariannol i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am Reolaeth

Croesawodd y Cadeirydd Mr David Jones o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru (ACiW) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r aelodau am yr eitem hon o fusnes. Esboniodd Mr Jones fod y "Datganiad o Safonau Archwilio 610 (SAS610) – Adrodd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am reolaeth" yn gofyn i'r Comisiwn adrodd i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am reolaeth am yr holl elfennau sy'n ymwneud â'r

broses archwilio, cyn rhoi barn am ddatganiadau ariannol y corff hwnnw. Yr elfennau perthnasol yw: unrhyw berthynas a allai effeithio ar annibyniaeth yr archwilwyr; gwybodaeth am gynllunio'r archwiliad; a'r canfyddiadau wedi'r archwiliad, gan gynnwys barn yr archwilwyr ar agweddau ansoddol ffyrdd y corff o gyfrifo ac adrodd.

Dywedodd Mr Jones wrth yr aelodau na nodwyd unrhyw berthynas a allai effeithio ar annibyniaeth y Comisiwn, ac nad oedd yr un mater yn ymwneud â chamgyflwyniadau. Roedd yr archwiliad wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod wedi cadw cryn dipyn o arian wrth gefn yn gymorth tuag at ymrwymiadau yn y dyfodol. Er nad oedd yr arfer hwn yn cydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SoRP) CIPFA, ac roedd yr Awdurdod yn llwyr ymwybodol o hyn, dywedodd Mr Jones ei fod yn deall y rhesymau dros y strategaeth a ddilynir a chadarnhaodd fod yr holl arian wrth gefn yn dryloyw a bod yr awdurdodau cyfansoddol yn ymwybodol o'u bodolaeth. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn yr adroddiad***

## 8) Y Llythyr Archwilio Blynyddol 2003/04

Ymddiheurodd Mr David Jones o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru i'r aelodau ar ran Mr Anthony Barrett, yr Archwilydd Dosbarth, oedd yn methu bod yn bresennol i gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn manylu ar y negeseuon allweddol i'r Awdurdod gynhwyswyd yn y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2003/04. Esboniodd Mr Jones fod y Llythyr Archwilio Blynyddol wrth natur yn ddogfen hanesyddol a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion pwysicaf oedd wedi codi o ganlyniad i broses archwilio 2003/04. Roedd angen i'r Comisiwn dalu sylw arbennig i dri agwedd ar waith yr Awdurdod tra'n cynnal ei archwiliad, sef: cyfrifon yr Awdurdod, ei Reolaeth o Berfformiad a'r Agweddau Ariannol ar Lywodraeth Gorfforaethol. Cafodd yr aelodau wybod bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad nad oedd angen dod â'r un mater i sylw'r Awdurdod o ran ei gyfrifon. Roedd gan yr Awdurdod hanes gwych o gyhoeddi ei gyfrifon yn brydlon. O ran ei Reolaeth o Berfformiad, roedd y Comisiwn o'r farn fod Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau'r Awdurdod ar gyfer 2004/05 yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a bod y dangosyddion perfformiad yn gyson ac wedi eu cyfrifo'n gywir. Er bod angen gwella ar rai agweddau ar berfformiad, da oedd adrodd nad oedd yr un o'r meysydd hyn yn ymwneud â pherygl i fywyd. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn fod gan yr Awdurdod drefniadau rheoli priodol mewn lle i gydymffurfio â'r agweddau ariannol ar ofynion llywodraeth gorfforaethol o'r broses archwilio. O ganlyniad, yn unol â'r amserlen statudol, roedd y Comisiwn yn disgwyl cyhoeddi barn ddiamwys ar y cyfrifon erbyn 31ain Rhagfyr 2004.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D Clayton, rhoddodd y Trysorydd amlinelliad bras o'r system Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol a dywedodd nad oedd yr Awdurdod bellach ynghlwm wrth gyfyngiadau'r hen system cymeradwyo credyd ers Ebrill 2004 pan ddaeth y system Benthyciadau Darbodus i rym. I ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd Mr Jones fod gan yr Awdurdod weithdrefnau mewn lle i gynnal safonau ymddygiad ariannol ac i rwystro twyll ariannol a

llygredd, ac roedd angen iddo hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y staff o'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau na fu'n ymwybodol o unrhyw broblemau ynglŷn â'r mater hwn tan iddo ddarllen yr adroddiad, ond addawodd gymryd camau yn ystod 2005 i gywiro unrhyw ddiffygion. Holodd y Cynghorydd E C George sut y byddai Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn cymathu â'r Gynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod wrth adnabod risgiau. Dywedodd Mr Jones y byddai'r Cynllun Risg yn adnabod risg o safbwynt cyflwyno gwasanaethau tra byddai agenda y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ychydig yn fwy eang ac y dylai hefyd dynnu sylw at risgiau mewnol:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r Llythyr Archwilio Blynyddol 2003/04***

**9) Llythyr o Gynrychiolaeth**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw ynghyd â chopïau o ohebiaeth rhyngddo ef a'r Archwilydd Dosbarth) gyda'r bwriad o gael yr Awdurdod i gydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Dosbarth yn unol â Rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996. Cafodd yr aelodau hefyd wybod gan y Trysorydd y byddai'n ymdrechu i ateb unrhyw gwestiynau roeddent yn dymuno eu codi am yr adroddiad a'r llythyrau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Dosbarth ynglŷn â Datganiad Cyfrifon 2003/04***

**10) Cynllun Archwilio 2004/05**

Gwahoddwyd Mr David Jones o'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru gan y Cadeirydd i gyflwyno ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhestru'r gwaith archwilio oedd i'w wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2004/05. Esboniodd fod llunio cynllun archwilio yn un o brif ofynion y Câd Ymarfer Archwilio. Ac eithrio'r gwaith ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod roedd y Comisiwn yn disgwyl cwblhau gweddill y gwaith, restrwyd yn yr adroddiad, erbyn Mehefin 2005. Aeth Mr Jones yn ei flaen i esbonio'r holl feysydd oedd yn yr adroddiad yn fanwl. Ymddiheurodd fod y ffioedd a nodwyd ar gyfer y gwaith yn yr adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau, yn anghywir: y ffi cywir oedd £46,149, oedd ychydig yn is na'r ffigwr a ddangoswyd. Dywedodd hefyd wrth yr aelodau fod angen i bob archwiliwr oedd yn ymwneud â phroses archwilio'r Awdurdod, yn flynyddol, i lofnodi datganiad yn dweud nad oeddynt yn gwybod am unrhyw berthynas nac unrhyw faterion eraill a allai mewn unrhyw ffordd beryglu eu hannibyniaeth wrth wneud y gwaith archwilio. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad a'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2004/05***

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ddod i'r cyfarfod a chyflwyno'r tri adroddiad i'r Awdurdod.

## 11) Datganiad o Gyfrifon 2003/04

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cyflwyno'r fersiwn a archwiliwyd o Ddatganiad Cyfrifon 2003/04 i'r Awdurdod. Esboniodd fod yr Awdurdod eisoes wedi cymeradwyo'r cyfrifon yn ei gyfarfod ar 19eg Gorffennaf 2004 cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Archwilio. Roedd y Comisiwn wedi gofyn am rai newidiadau ymddangosiadol i'r cyfrifon. Felly, wedi gwneud y newidiadau roedd y Trysorydd nawr yn cyflwyno'r fersiwn ddiwygiedig i'r aelodau eu cymeradwyo. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2003/04***

## 12) Cynllun Lwfansau i Aelodau

Yn absenoldeb y Clerc, cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro ei adroddiad i geisio cael yr Awdurdod i gymeradwyo'r cynllun lwfansau i aelodau oedd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad. Esboniodd ei bod, yn ystod cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r aelodau am y Rheoliadau drafft diwygiedig a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Yn ei gyfarfod ar 18fed Hydref 2004, roedd y Panel Gweithredol wedi bod yn ystyried cynllun Awdurdod Tân Gogledd Cymru, a luniwyd gan y Swyddogion, ac wedi argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo ei fabwysiadu fel cynllun yr Awdurdod. Tynnwyd sylw'r aelodau gan y Dirprwy Swyddog Monitro at baragraffau 4.1 a 4.2 o adroddiad y Clerc. Roeddynt yn cyfeirio at y goblygiadau treth posib y Cynllun a chyfrifoldeb yr aelodau i sicrhau bod ymrwymiadau o'r fath yn cael eu cyflawni, ac at newid oedd wedi cael ei ymgorffori yn y Cynllun ers iddo gael ei gymeradwyo gan y Panel Gweithredol yn ymwneud â defnyddio car ar gyfer rhai teithiau. Roedd y Cynghorydd E F Evans o'r farn y dylai Atodlen 2 i'r Cynllun nodi y dylai'r diffiniad o "gludiant cyhoeddus" fynnu defnyddio bws ar gyfer y daith; dim ond os nad oedd dewis arall neu os oedd brys mawr iawn y dylid defnyddio tacsi. Roedd yr aelodau'n cytuno â hyn a:

***Penderfynwyd: - i gymeradwyo'r cynllun lwfansau oedd yn yr atodiad i'r adroddiad a, gan aros cynnwys defnyddio bws yn y diffiniad o "gludiant cyhoeddus" yn Atodlen 2 ac mai dim ond os nad oedd dewis arall neu os oedd brys mawr iawn y dylid defnyddio tacsi, fabwysiadu'r Cynllun yn gynllun lwfansau Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer yr aelodau gan ddod i rym ar 29ain Medi 2004 (1af Hydref 2004 o ran y lwfansau teithio a chynhaliaeth)***

## 13) Y Gyllideb Ddrafft 2005/06 a'r Rhagolwg ar gyfer 2006/07 a 2007/08

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn gwneud gofyniad i'r Awdurdod ystyried rhestr o gynigion o ran y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005/06, y rhagolygon ar gyfer 2006/07 a 2007/08. Fel atodiad i'r adroddiad, roedd manylion y gyllideb refeniw ddrafft, y cyfraniadau amcanol oedd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol, rhestr o'r dangosyddion darbodus fel sydd yn angenrheidiol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys,

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2004/05 a'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Trysorydd ei bod yn ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i roi gwybod i'r awdurdodau cyfansoddol erbyn 31ain Rhagfyr am ei wariant net amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Erbyn 15fed Chwefror 2005 roedd yn angenrheidiol i'r Awdurdod gadarnhau i'r awdurdodau cyfansoddol y swm fyddai ei hangen gan bob un ohonynt i Gronfa'r Gwasanaeth Tân Cyfunol. Aeth yn ei flaen i esbonio bod geiriad yr adroddiad presennol yn fwy uniongyrchol na'r arfer, ac roedd hyn oherwydd y setliad Grant Cefnogi Refeniw siomedig yr oedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru wedi ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Yna, rhoddodd y Trysorydd esboniad manwl o'r holl elfennau gynhwyswyd yn ei adroddiad, ac o bob opsiwn a gyflwynwyd i'r aelodau. Esboniodd fod yr adroddiad yn rhestru nifer o bethau roedd angen eu cadw mewn cof wrth benderfynu ar y cynnydd yn y gyllideb yr oeddynt yn mynd i'w osod. Roedd y cynnydd yn y gyllideb ddrafft gyntaf ar gyfer 2005/06 wedi cael ei gyfrifo ar 9.53% yn uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2004/05. O fewn yr adroddiad roedd nifer o opsiynau i'r aelodau eu hystyried er mwyn lliniaru effaith cynnydd cyffredinol yn y gyllideb o 9.53%, ynghyd â'r elfen o risg oedd ynghlwm wrth ddefnyddio pob opsiwn. Cafodd yr aelodau wybod y gallai'r Awdurdod, oherwydd y lefel is na'r disgwyl o waith ar yr ochr weithredol, wynebu tanwariant o ryw £670, 000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Fodd bynnag, roedd angen bod yn ofalus wrth ddelio â'r ffigwr hwn gan y gallai tywydd eithafol neu nifer uchel o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol weld y ffigwr hwn yn lleihau'n fawr. Felly, doeth fyddai rhagweld tanwariant o ryw £500,000. Roedd yr aelodau o'r farn fod rhaid i'r Awdurdod gael ei weld i fod yn gost-effeithiol a gosod y cynnydd isaf posib yn y gyllideb heb amharu ar y gwasanaeth a ddarperir oherwydd y setliad ariannu siomedig ar gyfer llywodraeth leol ac effaith ailfandio'r dreth cyngor. Ar ôl ystyried y cyngor a'r risgiau:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. gosod y cynnydd yng nghyllideb 2005/06 ar 4.09%;***
***ii. hysbysu'r awdurdodau cyfansoddol am y cyfraniadau amcanol fydd eu hangen ar gyfer 2005/06, fel a nodwyd yn Atodiad B, erbyn 31ain Rhagfyr 2004;***
***iii. dirprwyo pwerau i'r Panel Gweithredol i ystyried a chymeradwyo sut y gellir pennu'r arbedion effeithlonrwydd o £294,123 a'u gweithredu ar gyfer cyllideb 2005/06;***
***iv. cyflwyno sylwadau i CLlLC a'r Cynulliad Cenedlaethol am weithredu darpariaethau Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 o ran codi tâl am wasanaethau;***
***v. cymeradwyo'r gyfres o Ddangosyddion Darbodus fel a nodwyd yn Atodiad C;***
***vi. cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2005/06 fel a nodwyd yn Atodiad D;***

*vii. cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2005/06 a'r dulliau cysylltiedig o ariannu, yn Atodiadau E a F i'r adroddiad; ac*

*viii. os daw unrhyw newidiadau i'r amlwg cyn 31ain Ionawr 2005, dirprwyo'r pwerau i osod lefel is i'r gyllideb i'r Panel Gweithredol, neu os daw datganiadau neu arbedion o'r fath i'r amlwg wedi'r dyddiad hwn ond cyn 15fed Chwefror 2005,dirprwyo'r pŵer hwn i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc*

**14) Y Newidiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog**

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad y Clerc (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhestru'r newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn unol ag argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn ei gyfarfod ar 26ain Awst 2004. Roedd y newidiadau, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, wedi cael eu cynnig a'u heilio yn y cyfarfod blaenorol o'r Awdurdod Tân ac felly roeddynt wedi aros heb gael eu trafod tan y cyfarfod presennol. Roedd y newidiadau yn darparu, yn unol â'r trefniadau presennol, fod Cadeirydd yr Awdurdod Tân hefyd yn gadeirydd unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod yr oedd yn aelod ohono; a bod y Pwyllgor Safonau yn cael caniatâd i reoleiddio ei weithdrefnau ei hun yn ddibynnol ar gyd-fynd â gofynion y ddeddfwriaeth. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r newidiadau fel a restrwyd yn yr atodiad i'r adroddiad***

**15) Cyflwyno Tariannau Swyddogol yr Awdurdod Tân i Aelodau yn Ymddeol**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r aelodau drafod cais fod pob aelod o'r Awdurdod Tân a fyddai'n ymddeol yn cael ei gyflwyno â tharian swyddogol yr Awdurdod Tân. Cafodd yr aelodau wybod bod yr adroddiad, oedd yn cynnwys cynigion ar y paramedrau a'r meini prawf i'w hateb a'r protocolau i gadw atynt ar gyfer cyflwyno tariannau i aelodau o'r Awdurdod fyddai'n ymddeol, wedi ei lunio ar gais y Panel Gweithredol yn dilyn ei gyfarfod ar 18fed Hydref 2004. Roedd y Cynghorydd M Griffith o'r farn mai oherwydd synnwyr dyletswydd cyhoeddus ac nid er mwyn derbyn bri yr oedd yr aelodau'n ymgymryd â'r swydd. Roedd hefyd yn teimlo bod angen i'r Awdurdod, ar hyn o bryd, gael ei weld yn gwneud defnydd effeithiol o arian y trethdalwr ac nid yn ei wario ar eitemau diangen fel tariannau ar gyfer yr aelodau. Roedd y Cynghorydd D Jones yn cefnogi'r safbwynt yma. Cynigiodd y Cynghorydd Griffith welliant i'r argymhelliad, ac eiliodd y Cynghorydd D Jones hynny: sef na ddylai'r Awdurdod Tân gyflwyno tariannau swyddogol i aelodau oedd yn ymddeol. Pan bleidleisiwyd, pasiwyd y gwelliant. Pan bleidleisiwyd ar yr argymhelliad gwreiddiol oedd yn yr adroddiad, fe'i trechwyd. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - na ddylid cyflwyno tariannau swyddogol yr Awdurdod Tân i aelodau fyddai'n ymddeol o'r Awdurdod Tân***

## 16) Ystadegau Galwadau mewn Gorsafoedd Criw Dydd

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r bwriad o roi'r diweddaraf i'r aelodau am fater diwrnod gwaith i ddiffoddwyr tân llawn amser ar orsafoedd criw dydd. Fel atodiad i'r adroddiad, roedd y rhan berthnasol o Gynllun Risg yr Awdurdod y cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei seilio arno a llythyr gan y Cynghorydd W J Chorlton yn gofyn am drafodaeth am yr eitem yn y cyfarfod presennol ac yn cyfeirio at lythyr roedd holl aelodau'r Awdurdod wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan Undeb yr FBU. Cyn dechrau'r cyfarfod roedd copïau o graffiau data wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau. Roedd y graffiau'n dangos nifer y galwadau a dderbyniwyd yn 2000/01, 2001/02 a 2002/03, yr amser y derbyniwyd y galwadau, sut roedd amseroedd y galwadau hyn yn cyd-fynd gydag amseroedd y shifftiau presennol yn y gorsafoedd ac amseroedd newydd y shifftiau oedd i fod i ddod yn weithredol ar 6ed Ionawr 2005; rhoddwyd yr un wybodaeth ar gyfer y pum gorsaf criw dydd yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod yr wybodaeth oedd mewn lythyr a ddosbarthwyd iddynt gan yr Undeb yn union cyn dechrau'r cyfarfod yn datgan yn anghywir y byddai Panel Anghydfodau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) yn gwrando ar apêl gan yr Undeb yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod i newid amseroedd y shifftiau ar y 9fed Chwefror 2005. Dywedodd wrth yr aelodau y byddai ef a'r Clerc yn mynd i gyfarfod o Gyd-Ysgrifenyddion y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar 9fed Chwefror 2005 i drafod hyn a materion eraill. Pwysleisiodd nad gwrandawiad Panel Anghydfodau oedd y cyfarfod. Roedd y Clerc wedi cynghori na ellid, o dan amodau y Cytundeb Cyflog ac Amodau Gwasanaeth 2003, gofrestru unrhyw newid a weithredwyd gan yr Awdurdod yn dilyn cwblhau proses y Cynllun Risg fel "anghydfod". Cafodd yr aelodau wybod bod y cyfarfod gyda'r Cyd-Ysgrifenyddion eisoes wedi ei ohirio ar gais swyddogion yr Undeb o'i ddyddiad gwreiddiol sef 17eg Rhagfyr 2004.

Yna, rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon gyflwyniad i'r Awdurdod yn cefnogi'r wybodaeth ddangoswyd ar y graffiau a ddosbarthwyd i'r aelodau. Pwysleisiodd nad oedd y newid oedd i'w weithredu yn ymestyn mewn unrhyw ffordd hyd y shifftiau, dim ond yn newid yr amseroedd dechrau a gorffen. Roedd y graffiau'n dangos sut roedd yr un patrymau galwadau'n ailadrodd eu hunain flwyddyn ar ôl blwyddyn. Roedd y nifer uchaf o alwadau'n digwydd yn union ar ôl diwedd amser y shifft bresennol. Oherwydd hynny, roedd oedi ar yr amseroedd ymateb gan nad oedd y criwiau wrth law ar yr orsaf. Roedd y graffiau ar gyfer pob gorsaf yn dangos yr un patrwm cyffredinol: nifer isel o alwadau yn ystod y bore cynnar, gan godi'n raddol yn ystod y dydd gan gyrraedd uchafbwynt yn hwyr y prynhawn a fin nos cyn gostwng eto o thua 10 o'r gloch ymlaen. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod yr un tueddiadau i'w gweld hefyd yn y data hyd yn hyn eleni.

I ateb y gwahanol gwestiynau, pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon i'r aelodau fod proffil pob gorsaf yn dangos yr un patrwm galwadau a bod y graffiau'n dangos nifer y galwadau a dderbyniwyd yn ardal pob gorsaf. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân mai'r ffigurau hyn a ddefnyddiodd yr Awdurdod yn ystod proses y Cynllun Risg. Dyna oedd sail y

penderfyniad i newid amseroedd y shifftiau, ac nid oedd dim wedi newid felly. Fel rhan o'r broses wirio, roedd y Cynllun Risg wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Archwilio ac wedi cael ei archwilio. Er i arbedion effeithlonrwydd o ryw £75, 000 gael eu nodi, nid arbed arian oedd y rheswm dros y newid, ond yn hytrach leihau'r risg i fywydau ac eiddo. Trwy gael amseroedd y shifftiau i gyd-fynd ag amseroedd prysuraf y Gwasanaeth byddai'r Awdurdod yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'i adnoddau, y canlyniad fyddai darparu gwasanaeth cyhoeddus uchel ei safon i'r trethdalwr pan fyddai ei angen fwyaf.

Roedd rhai aelodau o'r farn y dylai'r Awdurdod ddangos ewyllys da a sicrhau perthynas weithio gyfeillgar gyda'r Undeb trwy ohirio'r newid i'r amseroedd shifftiau newydd tan ar ôl y cyfarfod o Gyd-Ysgrifenyddion y Cyd-Cyngor Cenedlaethol (NJC) ar 9fed Chwefror 2005. Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn mai diben y cyfarfod ar 9fed Chwefror oedd llyfnhau mân faterion. Roedd yn bendant ei farn fod yr Awdurdod eisoes wedi trafod y newid ryw 18 mis ynghynt ac wedi mynd trwy'r broses gyfreithiol gywir trwy ymgynghori ar y newid arfaethedig fel rhan o'i Gynllun Risg cyntaf. Roedd nawr bellach yn bryd cydnabod ei ymrwymiad i'r agenda foderneiddio ac i'r cyhoedd trwy weithredu'r newid i'r amseroedd shifftiau. Byddai effaith y newidiadau trwy broses y Cynllun Risg yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso'n gyson. Cafodd barn y Cynghorydd George ei adleisio gan y Cynghorydd D Jones, roedd ef yn pwysleisio fod yr Awdurdod wedi derbyn y farn gyfreithiol, roedd y ffeithiau o'u blaenau ac felly dylent dderbyn bod yr wybodaeth a gawsant yn gywir.

Tynnodd y Dirprwy Swyddog Monitro sylw'r aelodau at yr ystyriaethau cyfreithiol restrwyd yn yr adroddiad ac mai ei barn gadarn a phendant hi oedd y byddai'n fyrbwyll i'r Awdurdod beidio â bwrw ymlaen gyda'r newid a fwriadwyd yn wreiddiol. Roedd y rhybudd statudol 90 niwrnod ynghylch y newid i amseroedd y shifftiau wedi ei gyflwyno i'r holl staff oedd yn gweithio'r 'system shifft criw dydd' gyda'r newid i ddod i rym ar 6ed Ionawr 2005.

Yn dilyn trafodaeth drwyadl gwnaed cais i gymryd pleidlais gofnodedig. Pan gyflwynwyd hyn gerbron y cyfarfod, ni ddangosodd nifer digonol o aelodau eu cefnogaeth o blaid y cais am bleidlais gofnodedig.

Cynigiodd y Cynghorydd W J Chorlton welliant i'r argymhelliad gwreiddiol, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd W T Roberts, sef bod newid amseroedd shifftiau ar orsafoedd criw dydd yn cael ei ohirio o 6ed Ionawr 2005 tan 10fed Chwefror 2005, pan fyddai canlyniad cyfarfod Cyd-Ysgrifenyddion y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn hysbys. Pan bleidleisiwyd, collwyd y gwelliant.

Rhoddwyd y cynnig gwreiddiol i bleidlais, sef y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r newid i amseroedd y shifftiau ar orsafoedd criw dydd i ddod i rym ar 6ed Ionawr 2005, a thrwy bleidlais fwyafrifol:

***<u>Penderfynwyd</u>: - y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen gyda'r newid yn amseroedd shifftiau ar orsafoedd criw dydd fel a gynigiwyd yn ei Gynllun Risg gwreiddiol i ddod i rym o'r 6ed Ionawr 2005 pan ddeuai'r rhybudd statudol 90 niwrnod o newid i'r staff perthnasol i ben, ac ymateb fel hynny i llythyr yr FBU***

## 17) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r trefniadau oedd gan yr Awdurdod mewn lle i sicrhau cydymffurfiad â gofynion y Ddeddf o 1af Ionawr 2005, sef y dyddiad y byddai'r Ddeddf yn dod i rym yn llwyr. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi cynnwys yr adroddiad**

## 18) Tendrau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am y tendrau a dderbyniwyd ar gyfer adeilad lle i'r Uned Ymateb i Ddigwyddiadau ym Mangor, adeiladu tŷ hyfforddi ym Mae Colwyn, a gwaith adnewyddu yn Johnstown. Esboniodd fod angen iddo, yn unol â Rheolau Sefydlog Ariannol yr Awdurdod a gan fod pob tendr yn uwch na £40,000, adrodd ynghylch eu derbyn i'r Awdurdod. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi penderfyniadau'r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn derbyn y tendrau ar gyfer:**

- ***i. y cyfleuster ym Mangor am swm o £96,080.14***
- ***ii. y tŷ hyfforddi ym Mae Colwyn am swm o £107,673.51***
- ***iii. y gwaith ailfodelu yng ngorsaf dân Johnstown am swm o £99,334.03***

## 19) "Er Gwybodaeth"

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Bethan Davies, Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus, am ei gwaith yn llunio cystal cylchgrawn. Felly:

***Penderfynwyd*: - derbyn y cylchgrawn**

## 20) Materion Brys

Trafodwyd eisoes dan eitem fusnes 2.

Yna, dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod gweddill yr eitemau busnes ar yr agenda heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol. Felly:

***Penderfynwyd*: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a10 o Atodlen12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.**

**RHAN II**

**21) Lle i Swyddfeydd yng Nghonwy a Sir y Fflint**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Tân am yr adeiladau arfaethedig i swyddfeydd ar brydles yng Nghonwy a'r Fflint. Fel atodiad i'r adroddiad roedd manylebau'r ddau adeilad oedd dan ystyriaeth. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Awdurdod fod angen yr adeiladau i ategu strwythur sirol newydd y Gwasanaeth. Y bwriad oedd lleoli gwaith diogelwch tân y ddwy sir yn y swyddfeydd hyn. Byddent hefyd yn bodloni'r ochr canolfan wybodaeth canol y dref roedd yr Awdurdod yn ei hyrwyddo er mwyn gwneud ei wasanaethau'n hawdd ei gael i'r cyhoedd. Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks yn ei flaen i roi gwybodaeth fanwl am y lleoliadau i'r aelodau ac ateb y cwestiynau a godwyd. Dywedodd fod rhagor o waith yn cael ei wneud o ran dod o hyd i adeiladau addas i gyflawni'r gwaith diogelwch cymunedol yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'n debyg y byddai'n rhaid ymadael ag adeilad y Pencadlys Rhanbarthol presennol o fewn y misoedd nesaf; felly efallai y byddai rhaid lleoli'r staff yng Ngorsaf Dân Wrecsam dros dro. Roedd y Cynghorydd E C George yn teimlo y byddai'r ffaith fod Gorsaf Dân Wrecsam yn agos i ganol y dref yn ei gwneud yn lle delfrydol fel swyddfa sirol barhaol. Cafodd y farn hon ei hatseinio gan yr Is-Gadeirydd.

Lleisiodd y Cynghorydd P C Evans bryderon am y goblygiadau busnes o gael gwared ar safle York Road yn Llandudno oedd yn ased i'r Awdurdod a phrydlesu adeilad arall yng Nghonwy am gyfnod o ddeng mlynedd. Roedd o'r farn y byddai'n fwy buddiol i'r Awdurdod ddiddymu ei benderfyniad blaenorol i werthu safle York Road a dal gafael ar yr ased cyfalaf gwerthfawr yma. Roedd ganddo hefyd amheuon a oedd lleoliad yr adeilad dan ystyriaeth yng Nghonwy mewn gwirionedd yn addas. Roedd y Cynghorydd Evans yn deall yr angen i weithio'n agos gyda'r awdurdod lleol ond nid yng Nghonwy ei hun yr oedd yr adrannau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a fyddai'n elwa o gydweithio'n agosach â'r gwasanaeth tân ac achub wedi eu lleoli, roedd y rhain mai mewn trefi eraill o fewn y sir. Roedd y Cynghorydd Wyn Jones yn cytuno â theimladau'r Cynghorydd Evans. Awgrymodd y Cynghorydd Evans y dylid edrych ar y posibilrwydd o adeiladu llawr arall ar ben Gorsaf Dân Llandudno i leoli'r staff sy'n gwasanaethu sir Conwy. Dywedodd y Trysorydd fod y penderfyniad i werthu safle York Road eisoes wedi ei wneud, a phetai'r penderfyniad yn cael ei ddiddymu byddai'r swm prisiad ar gyfer y safle oedd wedi ei gynnwys yn y gyllideb yn gorfod cael ei symud i'r Gyllideb Refeniw. Roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn fod cyflwr safle York Road ymhell o fod yn foddhaol ac nad oedd yn addas ar gyfer y gwaith sirol newydd. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi ymweld â'r adeilad yng Nghonwy ac ei fod yn ei farn ef yn adeilad gwych a oedd â'r isadeiledd technoleg gwybodaeth angenrheidiol ynddo yn barod i'r Awdurdod symud iddo'n fuan.

Cynigiodd y Cynghorydd D Jones y dylai'r Awdurdod dderbyn argymhellion y Swyddogion a mynd ymlaen gyda'r cynigion i brydlesu'r ddau adeilad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd M Griffith. Cynigiodd y Cynghorydd P C Evans welliant,

ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd W Jones, sef bod y penderfyniad i brydlesu'r adeilad yng Nghonwy nodwyd yn adroddiad yn cael ei ohirio a chadw safle York Road, Llandudno, tan y ceid opsiynau mwy addas a dod â hwy i'r Awdurdod eu hystyried. Pan bleidleisiwyd, trechwyd y gwelliant. Yna, pleidleisiwyd ar yr argymhelliad a'r cynnig gwreiddiol, a:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. cymeradwyo prydlesu'r adeilad yng Nghonwy am y cyfnod a'r gost fanylwyd arno yn yr adroddiad, ac yn dilyn hynny adleoli'r staff a gwerthu safle York Road yn Llandudno; a***
- ***ii. cymeradwyo prydlesu'r adeilad yn y Fflint am brydles o 3 blynedd o leiaf, am y gost y flynyddol fel a fanylwyd arno yn yr adroddiad, ac yn dilyn hynny adleoli'r staff o safle Ffordd Maesgwyn yn Wrecsam***

**22) Hen Orsaf Dân Llanfairfechan**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod ystyried y cynnig i werthu safle hen Orsaf Dân Llanfairfechan. Esboniodd fod y rhai oedd â diddordeb, sef y rhai roedd yr Awdurdod eisoes wedi cytuno i brydlesu'r safle iddynt gyda'r opsiwn i brynu yn y dyfodol, bellach wedi dweud eu bod mewn sefyllfa i brynu'r safle o'r cychwyn. Roedd y manylion perthnasol, gan gynnwys telerau'r brydles wreiddiol yn yr adroddiad a'r atodiad. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo gwerthu hen Orsaf Dân Llanfairfechan i Ymddiriedolaeth Ddatblygu Cwmni Penllan Cyf.***

**23) Atal Tân Cymru**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi gwybod i'r aelodau am adolygiad annibynnol i waith Atal Tân Cymru. Roedd y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd yr Awdurdod ill dau yn ymddiriedolwyr Atal Tân yn rhinwedd eu swyddi ac roedd yr Ymddiriedolaeth wrthi'n penodi ymddiriedolwyr lleyg. Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod y tri Phrif Swyddog Tân yng Nghymru, wrth i'r Ymddiriedolaeth nesáu at ddiwedd ei ail flwyddyn lawn o weithredu, wedi comisiynu adroddiad annibynnol i edrych ar ei berfformiad yn erbyn y disgwyliadau gwreiddiol a gyda'r bwriad o gynorthwyo i benderfynu ar lefel y gefnogaeth ariannol y byddai ei hangen yn y dyfodol. Roedd adroddiad yr ymgynghorwyr, oedd yn atodiad i'r adroddiad, yn gytbwys iawn ar y cyfan. Roedd yn nodi bod Atal Tân wedi perfformio'n dda mewn rhai meysydd ond heb gael cystal cynnydd mewn meysydd eraill. Roedd yr adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad y byddai Atal Tân yn annhebygol o allu ariannu ei hun, roedd hyn yn groes i'r disgwyliadau cychwynnol, disgwyliadau oedd bellach i'w gweld yn rhai optimistic tu hwnt. Felly, gwnaethpwyd cais i'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru i barhau i gefnogi Atal Tan Cymru yn ariannol am y tair blynedd nesaf ar raddfa oedd yn cymharu â'r lefel ariannu bresennol. Wedi trafodaeth:

***Penderfynwyd*****: -**

i. ***nodi cynnydd Atal Tân Cymru a mynegi eu cefnogaeth i barhad a datblygiad yr Ymddiriedolaeth; a***
ii. ***chytuno i gefnogi'r Ymddiriedolaeth yn ariannol, ar lefel oedd yn cymharu â'r cyfraniad ar gyfer 2004/05 am gyfnod o dair blynedd, a'r gefnogaeth yn y dyfodol yn amodol ar adroddiad gan y Prif Swyddog Tân i'r cyfarfod o'r Awdurdod yn Rhagfyr 2007***

Cyn cloi'r cyfarfod, dymunodd y Cadeirydd yn dda i bawb am y Nadolig.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 21 Mawrth, 2005